

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A55  
(Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth  
Gyffordd 3 (Cyfnewidfa  
Pencaledog), Ynys Môn)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2022

The A55 Trunk Road (Slip Roads  
at Junction 3 (Pencaledog  
Interchange), Anglesey)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2022

*Gwnaed* 13 Mai 2022

*Made* 13 May 2022

*Yn dod i rym* 16 Mai 2022

*Coming into force* 16 May 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi a chychwyn**

**Title and commencement**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mai 2022.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Slip Roads at Junction 3 (Pencaledog Interchange), Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 16 May 2022.

**Dehongli**

**Interpretation**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 18:00 o’r gloch ar 16 Mai 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaerdybi.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua’r gorllewin a thua’r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Ynys Môn.

### **Cymhwyso**

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

13 Mai 2022

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 London to Holyhead trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 18:00 hours on 16 May 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the westbound and eastbound exit and entry trunk road slip roads at Junction 3 (Pencaledog Interchange), Anglesey.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

13 May 2022

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government